

Prosiect Sbwriel Cricieth 2016- 2018

Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn



Paratowyd y llawlyfr hwn gan

Catrin Glyn

Swyddog Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn

Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn

Mae Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn yn brosiect peilot sydd wedi ei leoli ym Mhen Llŷn ac yn esblygiad o waith Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau (ACA PLAS). Datblygwyd y gwaith yn dilyn argymhellion mewn dogfen a ffurfiwyd gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru (CPC), 'Striking the Balance'. Dogfen oedd yn cynnig dull o reoli'r môr fyddai'n gwella ein dealltwriaeth o'r amgylchedd forol, gan annog adferiad a gwytnwch ecosystemau, heb gael effaith andwyol ar bysgotwyr lleol a chymunedau; dull gweithredu fyddai'n diogelu bywyd diwylliedig ac economaidd gan warchod pysgodfeydd traddodiadol a gweithgareddau hamdden. Mae ACA PLAS a CPC yn cydarwain y prosiect, gan adlewyrchu'r ffaith fod cadwraeth a'r diwydiant pysgota yn adnabod yr angen i uno'n gydweithredol, er mwyn rheoli'r amgylchedd forol yn effeithiol, gyda dull gweithredu sy'n rhoi'r pwyslais a'r gydreoli ag ymgynghori.

Mae'r dull gweithredu ag ymgymeryd, a dyheadau'r prosiect yn cael eu cefnogi mewn egwyddor gan ddatblygiadau deddfwriaethol yng Nghymru: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a Deddf Amgylchedd 2016.



Cynnwys

Pennod 1 – Prosiect Sbwriel Cricieth	4
Pennod 2 – Monitro	5
Pennod 3 - #2minutebeachclean	8
Pennod 4 – I’r Gwellt â’r Gwelltyn	10
Pennod 5 – Tŵls Defnyddiol	12



Pennod 1 – Prosiect Sbwriel Cricieth

Fe gyflwynwyd y gwaith hwn fel rhan o raglen waith Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn 2016-2018 gyda chyllid o Gronfa Gystadleuol Cyfoeth Naturiol Cymru, a chyllid cyfatebol gan Seafish.

Rhoddodd y monitro waelodlin fesuradwy o ran tarddiad y sbwriel, a'r niferoedd, gan alluogi'r prosiect i weithio gyda'r gymuned ar gynlluniau i leihau sbwriel o'i darddiad. Rhoddwyd ffocws ar:

- Fonitro sbwriel morol
- Lanhau Traethau
- Leihau sbwriel o'i darddiad

O'r cyfarfod cychwynnol gyda'r Cyngor Tref, cyflwyniadau ysgolion, i ymgysylltu a rhannu ymarfer da ar wefannau cymdeithasol, mae'r gymuned leol wedi bod yn rhan elfennol o'r gwaith o'r cychwyn. Anelodd y prosiect tuag at ddatblygu ymgyrch hunangynhaliol gyda ffocws cymunedol yn gweithio tuag at ateb lleol i'r broblem o sbwriel morol.

Yn dilyn y profiadau, a'r meithrin arbenigedd a gwybodaeth sydd wedi bod yng nglwm a'r gwaith hwn, mae Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn wedi datblygu llawlyfr prosiect, syn cynnig canllawiau systematic ar gyfer efelychu'r gwaith a gyflawnwyd. Fe fydd yr etifeddiaeth hon ar gael i unrhyw grŵp neu ardal sy'n awyddus i ddatblygu prosiect o'r fath: gan ddileu dyblygu ac yn rhannu arferion da.



Pennod 2 - Monitro

Defnyddiwyd methodoleg *Beachwatch* y Gymdeithas Gadwraeth Forol (MCS) ar gyfer y monitro: rhaglen glanhau ac arolygu traethau cenedlaethol sy'n bodoli er dros 20 mlynedd. Cyflwynwyd ardal arolygu ar draeth Morannedd, Cricieth (SH511379), mae monitro rheolaidd wedi mynd rhagddo, yn unol â chlirio nifer fawr o sbwriel o draethau lleol. Isod, ceir y camau a gymerwyd gan Brosiect Ecosystemau Morol Llŷn i gyflawni'r gwaith:

CAM 1 Cysylltu gyda'r rhanddeiliaid

Mae cefnogaeth y gymuned leol, â'r gymuned o ddiddordeb wedi bod yn hanfodol i lwyddiant Prosiect Sbwriel Cricieth. Y cam cyntaf oedd cysylltu gyda'r Cyngor Tref i ennill eu cefnogaeth. Fe gyflwynodd y Swyddog Prosiect syniadau cychwynnol mewn cyfarfod, ac fe wnaeth hynny ennyn cefnogaeth lawn y Cyngor. Roedd y cynghorwyr yn eithriadol o ddefnyddiol o ran rhoi'r cynlluniau ar waith. Canolbwyntiwyd ar gysylltu â'r bobl oedd yn amlwg â diddordeb yn y maes ac wedi mynychu digwyddiadau tebyg yn y gorffennol.

CAM 2 Cynefino gyda chanllawiau glanhau traeth MCS: *Beachwatch*

Isod ceir crynodeb o'r canllawiau ar gyfer trefnu arolwg (mae'r canllawiau llawn ar gael yn: www.mcsuk.org/beachwatch).

- Dewch o hyd i draeth a chofrestrwch gyda *Beachwatch* ar gyfer cynnal digwyddiad. Fe brynwyd arwyddion gan Brosiect Ecosystemau Morol Llŷn a'u gosod i farcio'r ardal arolygu, ar ôl caniatâd y tîrfeddiannwr.
- Gwiriwch amseroedd y llanw yn eich traeth er mwyn trefnu eich digwyddiad am 2 awr neu fwy ar ôl llanw uchel, ac nid ar lanw isel. Defnyddiwch y llanw i ddewis dyddiad ac amser ar gyfer eich digwyddiad.
- Cysylltwch â pherchennog y traeth (yn aml y cyngor lleol, ac os yn wahanol, fe all y Cyngor eich rhoi ar ben ffordd) i gael caniatâd i gynnal eich digwyddiad ar eu tir.
- Tra'r byddwch chi ar y ffôn, gofynnwch pwy sy'n gyfrifol am gasglu'r sbwriel oddi ar y traeth, a threfnu ble i adael y sbwriel ychwanegol fydd wedi ei gasglu gennych. Gallwch hefyd ofyn am fenthyg unrhyw offer. Os nad ydi hynny'n bosib, mae'r Helping Hands Company yn cynnig gostyngiad ar gynnyrch i'ch helpu gydag unrhyw offer y byddwch ei angen.
- Gwnewch asesiad risg ar gyfer eich traeth. Cofiwch ymweld â'r traeth eto yn fuan cyn y digwyddiad i wneud yn siŵr fod yr asesiad yn gyfredol.
- Rŵan, ewch ati i hysbysebu!



CAM 3 Hyrwyddo

I ennill cefnogaeth y cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth roedd gwybodaeth yn cael ei rannu drwy nifer o ddatganiadau i'r wasg a thrwy sianelau cyfryngau cymdeithasol y prosiect (gweler Twlyn 1 ym Mhennod 5 - Tŵls Defnyddiol, ar gyfer poster digidol a ddefnyddiwyd i hyrwyddo digwyddiad glanhau'r traeth).

CAM 4 Trefnu paned ar ôl yr arolwg

Mae pawb yn mwynhau paned o de neu goffi poeth ar ôl gweithio'n galed. Mae bwyty Dylan's yng Nghricieth wedi bod yn hael iawn drwy gynnig diod boeth a chacen i holl wirfoddolwyr ar ôl pob digwyddiad glanhau a monitro. Roedd yr haelioni hwn yn ffactor enfawr o ran denu'r gwirfoddolwyr yn ôl ar gyfer yr arolwg nesaf.

CAM 5 Heliwch bopeth ynghyd ar gyfer y digwyddiad

- **Ffurflenni arolygu gwirfoddolwr a ffurflenni adnabod sbwriel morol** - Fe fydd yn rhaid i chdi fynd â'r ffurflenni yma hefo chi. Mae Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn wedi cyfieithu'r ffurflenni sydd eu hangen i'r Gymraeg (gweler twlyn 2 ym Mhennod 5 - Tŵls Defnyddiol, ar gyfer ffurflenni Cymraeg). Mae'r fersiynau Saesneg i'w gweld ar-lein o dan '*Organiser Resources*' ar y panel ar y dde wrth logio mewn i'r dudalen *Beatchwatch*.
- **Pecyn Cymorth Cyntaf** – Yn debyg i'r un yng nghefn eich car. Gadewch i bobl wybod bod un gennych. Fe allai'r gwirfoddolwyr ddefnyddio hwn eu hunain os angen, nid oes raid i chi fod yn gymhorthydd cyntaf hyfforddedig.
- **Bwced** – I gasglu gwrthrychau miniog sy'n debygol o dorri drwy leinin bin, fel gwydr a metel.
- **Bocs ar gyfer pethau miniog** - ar gyfer nodwyddau neu syrinjis - gallwch brynu bocs ar-lein am ychydig o bunnoedd.
- **Bocs bach** - I gasglu stympiau sigarêts os ydych am eu hailgylchu. Mi fysa bocs bach wedi ei ailgylchu o adra yn gweithio'n champion!
- **Digon o fagiau duon** - Y rhai tew a chryf sy'n gweithio orau. Os ydych yn ailgylchu plastigau, mae un lliw i blastigau ac un lliw i'r gweddill yn gweithio'n dda
- **Ffyn sbwriel** - Perchennog y traeth - yn enwedig os na'r Cyngor ydyw - mae'n bosib y byddai modd i chi fenthg offer. Fel arall, ewch i siop MCS ar-lein. www.mcsuk.org/shop i gal gostyngiadau gwych ar offer glanhau gan yr Helping Hand Company.



- **Menig** - (os nad yw'r gwirfoddolwyr yn defnyddio ffyn) Eto, efallai fod gan y perchennog rai i'w benthyg, gallai menig garddio weithio'n grêt hefyd.
- **Clipbords a beiros** - Os nad oes rhai i'w benthyg, maen nhw'n eithaf rhesymol ar y we.
- **Clorian** - Fe allwch brynu clorian gyda bachyn (newton meter) ar y we.
- **Gwisgwch ddillad addas** – Mae esgidiau cadarn a dillad ar gyfer y tywydd Cymreig yn angenrheidiol.

CAM 6 Dadansoddi Data

Mae'r Swyddog Prosiect wedi mewnbynnu data drwy safle *Beachwatch* ac wedi llunio tablau ar gyfer yr adroddiad terfynol y prosiect (gweler Twlyn 3 ym Mhennod 5 – Tŵls Defnyddiol, ar gyfer y tablau dadansoddi data).



Pennod 3 - #2minutebeachclean

Yn ychwanegol i'r arolygon a'r digwyddiadau glanhau traeth, roedd Cyngor Tref Cricieth a'r gwirfoddolwyr yn awyddus i wreiddio ymgyrch fyddai'n annog aelodau'r cyhoedd i wario ychydig funudau yn clirio sbwriel o'r traeth, mewn ffordd hwylus ac ymarferol.

Fframiau siâp A ydyw'r gorsafoedd gyda phoced allanol i ddal ffyn sbwriel a phoced fewnol i fagiau plastic. Gallai'r defnyddwyr gymryd ffon a bag, ei lenwi â sbwriel am ddau funud neu fwy, yna'i waredu mewn biniau cyfagos neu fannau ailgylchu. Dylid y bagiau plastic gael eu gosod yn ôl yn y man pwrpasol ar gyfer y defnyddiwr nesa.

Mae'r cynllun #2minutebeachclean yn cael ei arwain gan The Beach Clean Network Limited, sefydliad di elw sydd wedi ei sefydlu ers 2009 gan Martin Dorey a Tab Parry i annog clirio traethau. Datblygwyd y syniad fel ffordd o'i gwneud hi'n haws i'r cyhoedd lanhau'r traeth, hyd yn oed am ddau funud, yna postio llun ar wefannau cymdeithasol gyda'r hashnod #2minutebeachclean, gan arddangos ymarfer da. Gosodwyd yr orsaf gyntaf ar draeth Crooklets yn Bude, gogledd Cernyw ym Medi 2014. Ers hynny mae'r ymgyrch wedi tyfu'n aruthrol gyda dros 200 o orsafoedd wedi'u gosod dros Brydain ac Iwerddon, a'r bwrdd yng Nghricieth ydyw'r cyntaf yng Ngogledd Cymru. Mae miloedd o bobl drwy'r byd wedi defnyddio'r hashnod ar gyfer eu gweithgareddau glanhau traeth.

Pwy all brynu bwrdd? Os ydych yn gaffi, bwyty, tafarn, ysgol syrffio neu'n fusnes lleol ger y traeth, ac mae biniau a/neu adnodd ailgylchu gerllaw, fe allwch brynu bwrdd. Os ydych yn awdurdod lleol, sefydliad mawr neu fusnes sydd ddim ar yr arfordir, fe allwch brynu bwrdd a'i gadw ar draeth addas, ar yr amod fod gennych 'geidwad' i warchod y bwrdd.

Beth ydi Ceidwad? Rhaid i chi fel perchennog, neu eich Ceidwad sicrhau fod y bwrdd yn cael ei roi allan a'i gadw bob nos, yn ddibynnol ar y tywydd, a bod y ffyn a'r bagiau wedi ei stocio. Cytunodd Dylan's i gymryd cyfrifoldeb am roi'r bwrdd allan yng Nghricieth, a'i gadw bob nos, gan sicrhau fod digon o fagiau a ffyn ar gael.

Beth yw'r gost? Mae pob bwrdd yn costio £350 a TAW. Mae'r ffi dylunio yn £100 (gall hyn gynyddu yn ddibynnol ar eich gofynion). Mae cludiant yn rhad ac am ddim. Unwaith fydd y bwrdd yn ei le, caiff ei hyrwyddo drwy gyfrifon Facebook,



Twitter & Instagram #2minutebeachclean (gweler Twlyn 4 ym Mhennod 5 – Tŵls Defnyddiol, ar gyfer dyluniadau Cymraeg a Saesneg).

Manylion Cysylltu

Ffôn: Martin Dorey 01288 354399

E-bostio Martin: martin@copymonkey.biz

E-bostio Nicky: beachcleanshop@gmail.com

E-bostio Dolly: (social media) 2minutebeachclean@gmail.com

Cofiwch ymweld â <https://www.beachclean.net/> am fwy o fanylion am y byrddau.



Pennod 4 – I’r Gwellt â’r Gwelltyn

Fe amlygodd yr arolygon Beachawtch nifer y sbwriel, ac yn benodol, pa fath o sbwriel sydd yn cyrraedd y lan ar draeth Morannedd, yn rheolaidd. Y deunydd mwyaf niferus a gofnodwyd ac a gliriwyd o bell, oedd plastics.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda nifer o grwpiau a sefydliadau fel CNC, Cadwch Gymru’n Daclus, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, a’r MCS er mwyn sicrhau gweithredu mewn partneriaeth. Yng nghyd-destun lleihau sbwriel o’i darddiad, fe drafodwyd y syniadau canlynol mewn cyfarfodydd cychwynnol gyda busnesau lleol, y Cyngor Tref, partneriaid a gwirfoddolwyr.

- Lleihau Pacedi
- Pacedi Bioddiraddadwy
- Ymgyrch I’r Gwellt â’r Gwelltyn
- Pistyll Dŵr
- Cynlluniad Blaendal
- Treth Plastic

Ymchwiliwyd i becynnau bioddiraddadwy a bu trafodaeth rhwng y Swyddog Prosiect â Selina Lloyd (Siop Tsips All Ports Pwllheli) a Danny White-Meir (Siop Tsips Enochs, Llandudno), perchnogion busnesau sydd wedi dewis defnyddio pecynnau bioddiraddadwy. Fe ddangoswyd samplau a phrisiau i’r siopau tsips yng Nghricieth, ond yn anffodus roedd y ddau fusnes o’r farn fod y cynnydd yn y pris o’i gymharu gyda phecynnau anfiodiraddadwy yn ormod. O ganlyniad, teimlodd y gwirfoddolwyr y byddai’n fwy effeithiol i ganolbwyntio ar yr ymgyrch I’r Gwellt â’r Gwelltyn.

Bu trafodaethau rhwng busnesau lleol a gwirfoddolwyr y prosiect ynglŷn â datblygu ymgyrch fyddai nid yn unig yn codi ymwybyddiaeth am ddarganfyddiadau *Beachwatch*, ond i newid ymddygiad. Lansiwyd ymgyrch I’r Gwellt â’r Gwelltyn, yn targedu busnesau ac yn eu hannog i beidio defnyddio gwellt plastic undefydd, neu i newid i rai bioddiraddadwy. Fe ddatblygwyd cynllun brandio ac fe gynhyrchwyd sticeri ffenest i’w harddangos ar adeilad y busnes (gweler twlyn 6 ym Mhennod 5 - Tŵls Defnyddiol, ar gyfer logo ymgyrch I’r Gwellt â’r Gwelltyn). Ar ôl cyfuniad o fynd at fwytai, caffis a thafarndai, a rhai busnesau o du allan i Gricieth yn dod at y Swyddog Prosiect, mae’r busnesau canlynol yn rhan o’r ymgyrch.



Caffi'r Cwrt, Cricieth

Lion Hotel, Cricieth

Bryn Hir Arms, Cricieth

Caffi 46, Cricieth

Poachers Restaurants, Cricieth

Tir a Môr, Cricieth

Tea Room, Cricieth

Dylan's Cricieth

Dylan's Porthaethwy

Dylan's Llandudno

Coconut Kitchen, Abersoch

Tŷ Newydd Aberdaron




Pennod 5 – Tŵls Defnyddiol

- Twlyn 1: Poster digidol a ddefnyddiwyd i hyrwyddo digwyddiad glanhau
- Twlyn 2: Ffurflenni arolygu Cymraeg
- Twlyn 3: Tablau data'r arolwg
- Twlyn 4: Dyluniadau Cymraeg a Saesneg ar gyfer y bwrdd #2minutebeachcleaning
- Twlyn 5: Enghreifftiau o bacedi bioddiraddadwy
- Twlyn 6: Logo ymgyrch I'r Gwellt â'r Gwellyn



Twlyn 1: Poster digidol a ddefnyddiwyd i hyrwyddo digwyddiadau glanhau



Monitro Sbwriel - Morannedd, Cricieth *Litter Monitoring*

Dydd Sul Sunday

11:00

23/04/2017

Cyfarfod yn y maes parcio ger Dylan's
Meet in the car park by Dylan's

Lluniaeth ysgafn ar gael i wirfoddolwyr gan
Refreshments supplied to volunteers by

DYLAN'S

www.penllynarsarnau.co.uk



@ACA_PLAS_SAC



Pen Llŷn a'r Sarnau

**Prosiect Ecosystemau Morol LLŷn
Llŷn Marine Ecosystems Project**

Twlyn 2:

Ffurflenni arolwg *Beachwatch* Cymraeg

- Taflen Gwirfoddolwr *Beachwatch*
- Crynodeb o Arolwg *Beachwatch*



Taflen Arolwg Gwirfoddolwr Beachwatch

Dyddiad __/__/__

Enw'r traeth:.....

Eich enw a'ch cyfeiriad e-bost:

Ychwanegwch eich cyfeiriad e-bost neu cofrestrwch ar *Beachwatch* ar-lein i dderbyn diweddariadau gennym

- ◆ Er mwyn i'ch data gyfrif, **sicrhewch eich bod yn rhoi gwir werthoedd yn unig** – ni ellir defnyddio 'lot', 'nifer', 'llond bag', neu 'cannoedd'.
- ◆ Mae eitemau mwy cyffredin ar dudalen 1; mae rhai llai cyffredin ac 'eitemau eraill' nad ydynt yn ffitio mewn categori ar dudalen 2.

Yr hyn y mae wedi'i wneud ohono a rhif categori

0 Esiampl

Tali

Cyfanswm

Eitem ysbwriel

27

Cyfrifwch eich tali a rhwch eich cyfanswm terfynol yma

Cadwch dali fel ydych yn casglu'ch ysbwriel

1	Plastig / Polystyren	tali	Cyfanswm	1	Plastig / Polystyren	tali	Cyfanswm
	Pecyn 4/6 o groesfarrau caniau diod (<i>yokes</i>)				Llinyn / cortyn / rhaff (trwch 1cm +)		
	Bagiau (e.e. siopa)				Netiau / cortyn / rhaff / llinyn cylmog		
	Bagiau (bach, e.e. rhewgell / llysiau)				Teganau / clecwr parti / tân gwyllt / dymis		
	Bagiau: Rhwyll (e.e. llysiau)			2	Rwber	tali	Cyfanswm
	Poteli / cynhwyswyr: glanhau				Balwms (gan gynnwys llinyn, falfiau, rhubannau)		
	Poteli / cynhwyswyr: diodydd			3	Brethyn	tali	Cyfanswm
	Poteli / cynhwyswyr: pethau ymolchi / cosmetig				Dillad / esgidiau / tyweli		
	Darnau ceir				Sachlieiniau		
	Capiau / caeadau			4	Papur / Cardfwrdd	tali	Cyfanswm,
	Taniwr sigarêts / pyrsiau baco				Bagiau		
	Cribau / Brwsys gwallt / sbectolau haul				Cardfwrdd		
	Cynhwyswyr: Bwyd (gan gynnwys bwyd cyflym)				Cartonau (<i>purepak</i> e.e. llefrith)		
	Cwpanau				Cartonau (tetrapak e.e. sudd)		
	Cyllyll a ffyrç / hambyrddau / gwellt				Pacedi sigarêts		
	Lein bysgota				Stympiau sigarêts		
	Net pysgota a darnau net: 0-50cm				Cwpanau		
	Net pysgota a darnau net: 50cm +				Papurau newydd / cylchgronau		
	Fflôt / bwiau			5	Pren wedi'i beiriannu	tali	Cyfanswm
	Ewyn / sbwng / insiweiddio				Cyrc		
	Menig (e.e. golchi llestri)				Ffyn lollipop / ffyrç sglodion		
	Menig (diwydiannol/proffesiynol)			6	Metel	tali	Cyfanswm
	Cynhwyswyr olew / drymiau: 0-50cm				Aeol / caniau chwistrellu		
	Pecynnu / gorchuddion plastig (diwydiannol)				Barbeciws (tafladwy)		
	Pacedi: Creision / melysion / lollipops (gan gynnwys ffyn) / brechdanau				Caniau (diod)		
	Ysgrifbinnau a chaeadau ysgrifbinnau				Caniau (bwyd)		
	Darnau plastig / polystyren: 0-2.5cm				Capiau / caeadau		
	Darnau plastig / polystyren: 2.5-50cm				Pwysau pysgota / bachau / llithwyr		
	Darnau plastig / polystyren: 50cm +				Papur ffoil		
	Esgidiau / sandalau				Sgrap		
	Cetris gwn hela				Gwifren / rhwyll / gwifren bigog		
	Bandiau mawr			7	Gwydr	tali	Cyfanswm
	Llinyn / cortyn / rhaff (trwch 0-1cm)				Poteli		

8 Crochenwaith / Seramig tali Cyfanswm

Defnydd adeiladu (e.e. teiliau)

9 Glanweithiol tali Cyfanswm

Ffyn 'cotton buds'

Tamponau a dodwyr (*applicators*)

Padau / padiau bach / deunydd pecynnu

Weipiau gwlyb

10 Meddygol tali Cyfanswm

Cynhwyswyr / tybiau (gan gynnwys pcedi
tabledi)

Chwistrelli a nodwyddau

11 Ysgarthion tali Cyfanswm

Baw cŵn mewn bag

Trowch drosodd ar gyfer eitemau llai cyffredin →

Y Gymdeithas Cadwraeth Forol. Overcross House, Ross Park, Ross-on-Wye, Herefordshire HR9 7QQ T
01989 567 807 E beachwatch@mcsuk.org W www.mcsuk.org/beachwatch

Rhif Elusen Gofrestredig (Lloegr a Chymru): 1004005 Rhif Elusen Gofrestredig (Yr Alban): SC037480 Rhif
Cwmni Cyfyngedig gyda Gwarant : 2550966 Cofrestredig yn Lloegr Rhif TAW: 489 1505 17

© Y Gymdeithas Cadwraeth Forol (MCS) 2015. Cedwir Pob Hawl. Gallai'r dudalen hon gael ei ffotogopïo
neu ail-greu ar gyfer defnydd i'r prosiect *Beachwatch*. Am bob defnydd arall gofynnwch am ganiatâd gan
MCS

1 Plastig / Polystyren tali Cyfanswm

Tameidiau bagiau
 Poteli / cynhwyswyr / drymiau: Arall
 Bwcedi
 Cratiau
 Gwrtait / bagiau bwyd anifeiliaid
 Bocsys pysgod
 Hetiau caled
 Chwistrelliad cetrus gwn (e.e. sêl)
 Caniau jeri
Light / glow sticks (tiwbiau gyda hylif)
 Blaen cynffon cimwch a physgod
 Cewyll a thopiau cimwch / crancod
 Cewyll octopws
 Cynhwyswyr / drymiau olew: 50cm +
 Netiau wystrys / bagiau cregyn glas (gan gynnwys caeadau plastig)
 Hambyrddau wystrys (o ddiwylliannau wystrys)
 Gorchuddion o ddiwylliant cregyn glas (Tahitiaid)

2 Rwber tali Cyfanswm

Welingtons
 Teiars a beltiau injan
 Teiars a ddefnyddid fel ffenders

6 Brethyn tali Cyfanswm

Dodrefn
 Esgidiau (lledr)

Eitemau eraill

5 Pren wedi'i beiriannu tali Cyfanswm

Cewyll a thopiau crancod / cimwch
 Cratiau
 Bocsys pysgod
 Brwsys paent
 Paledi

6 Metel tali Cyfanswm

Teclynau
 Cewyll a thopiau cimwch / crancod
 Drymiau olew
 Tuniau paent

7 Gwydr tali Cyfanswm

Bylbiau / tiwbiau golau

8 Crochenwaith / Seramig tali Cyfanswm

Cewyll octopws

9 Glanweithiol tali Cyfanswm

Condomau
Freshener toiled
 Darnau paraffin / cŵyr: 0-1cm
 Darnau paraffin / cŵyr: 1-10cm
 Darnau paraffin / cŵyr: 10cm +

Os dewch o hyd i unrhyw beth nad yw wedi'i restru, ychwanegwch ef i'r rhestr 'Eitemau eraill' isod

Wedi dod o hyd i bethau od iawn? - e-bostiwch luniau at beach-watch@mcsuk.org

Pren mesur (cm)



Rhif categori a disgrifiad o'r eitem	Tali	Cyfanswm
5 Pren		
Arall 0-50 cm (manylwch)		
Arall 50cm + (manylwch)		
6 Metel		
Arall 0-50cm (manylwch)		
Arall 50cm + (manylwch)		
E.e. 10 plastr		

Crynodeb o Arolwg Beachwatch

- ♦ Er mwyn i'ch data gyfrif, **sicrhewch eich bod yn rhoi gwir werthoedd yn unig** – ni ellir defnyddio 'lot', 'nifer', 'llond bag', neu 'cannoedd'.
- ♦ Cwblhewch **un crynodeb o arolwg y digwyddiad**.

Enw'r Traeth *

Dyddiad ac amser yr arolwg *

Lleoliad y Traeth

Dyddiad:

Amser Cychwyn:

Amser Gorffen:

Tref agosaf:

Manylion y Trefnydd

Sir:

Enw:

Lledred / Cyfeirnod Grid OS:

Rhif Ffôn:

Hydred / Cyfeirnod Grid OS:

E-bost:

Gwybodaeth hollbwysig * (angenrheidiol, neu ni allwn dderbyn data'r arolwg)

Hyd y traeth a arolygwyd (dylai fod yn 100m):

Nifer y gwirfoddolwyr:

Nifer y bagiau bin llawn:

Gwybodaeth ychwanegol

Pryd gafodd y traeth ei lanhau ddiwethaf?

Cyfanswm pwysau'r gwastraff a gasglwyd o ardal yr arolwg (kg)

Hyd cyfartalog y traeth a arolygwyd (m)

A wnaethoch lanhau, ond heb arolygu unrhyw ardaloedd ychwanegol?

Os gwnaethodch, faint? (m)

Tywydd a ffactorau dylanwadol (yn yr wythnos yn arwain at yr arolwg)

Gwyntoedd: ☐ Alltraeth ☐ Artraeth
☐ Ysgafn ☐ Cryf

A oedd unrhyw amgylchiadau a ddylanwadodd ar yr arolwg? E.e. digwyddiadau traeth

Moroedd: ☐ Tawel ☐ Cymedrol ☐ Garw
☐ Llanw uchel eithriadol

Yr hyn a ganfyddoch

A ddaethoch o hyd i unrhyw eitemau estron neu olrheiniadwy?

Nodwch yr holl farciau adnabyddadwy, megis gwlad y mae'n tarddu ohono, cwmni, rhif cyfres ac ati

A ddaethoch o hyd i anifeiliaid a oedd wedi mynd yn sownd neu wedi marw?

☐ Do ☐ Naddo Os *do*, faint?

Os *do*, disgrifiwch yr anifail, neu rhowch enw'r rhywogaeth os yw'n hysbys:

A yw'r anifail yn sownd mewn ysbwriel?

☐ Ydi ☐ Nac ydi

Os *ydi*, disgrifiwch sut mae'n sownd a math yr ysbwriel:

A ddaethoch o hyd i unrhyw eitemau anarferol?

Cofiwch gynnwys yr eitemau hyn i gyd wrth gyfrifo y nifer cyfanswm dros y dudalen

A yw'r anifail yn Fyw *neu* Marw

Os dewch o hyd i anifail sydd yn sownd neu wedi brifo, ffo-niwch yr RSPCA ar 0300 1234999 neu'r SSPCA yn yr Alban ar 03000 999999

A oedd unrhyw olew, tar neu lygrydd arall?

Os ydych yn dod ar draws digwyddiad o lygredd neu flŵm algaidd, rhowch wybod i'r rheolydd amgylcheddol ar 0800 807060.

Olew/tar*: ☐ Dim ☐ Mymryn ☐ Ychydig ☐ Annerbyniol

Peli plastig*: ☐ Dim ☐ Presennol

1 Plastig / Polystyren

tali Cyfanswm

Pecyn 4/6 o groesfarrau caniau diod (*yokes*)
Bagiau (e.e. siopa)
Bagiau (bach, e.e. rhewgell / llysiau)
Bagiau: Rhwyll (e.e. llysiau)
Poteli / cynhwyswyr: glanhau
Poteli / cynhwyswyr: diodydd
Poteli / cynhwyswyr: pethau ymolchi / cosmetig
Darnau ceir
Capiau / caeadau
Taniwr sigarêts / pyrsiau baco
Cribau / Brwsys gwallt / sbectolau haul
Cynhwyswyr: Bwyd (gan gynnwys bwyd cyflym)
Cwpanau
Cyllyll a ffyr / hambyrddau / gwellt
Lein bysgota
Net pysgota a darnau net: 0-50cm
Net pysgota a darnau net: 50cm +
Fflôt / bwiau
Ewyn / sbwng / insiwleiddio
Menig (e.e. golchi llestri)
Menig (diwydiannol/proffesiynol)
Cynhwyswyr olew / drymiau: 0-50cm
Pecynnu / gorchuddion plastig (diwydiannol)
Pacedi: Creision / melysion / lolipops (gan gynnwys ffyn) / brechdanau
Ysgrifbinnau a chaeadau ysgrifbinnau
Darnau plastig / polystyren: 0-2.5cm
Darnau plastig / polystyren: 2.5-50cm
Darnau plastig / polystyren: 50cm +
Esgidiau / sandalau
Cetris gwn hela
Bandiau mawr
Llinyn / cortyn / rhaff (trwch 0-1cm)
Tameidiau bagiau
Poteli / cynhwyswyr / drymiau: Arall
Bwcedi
Cratiau
Gwrtaith / bagiau bwyd anifeiliaid
Bocsys pysgod
Hetiau caled
Chwistrelliad cetris gwn (e.e. sêl)
Caniau jeri

Light / glow sticks (tiwbiau gyda hylif)

Blaen cynffon cimwch a physgod
Cewyll a thopiau cimwch / crancod
Cewyll octopws
Cynhwyswyr / drymiau olew: 50cm +
Netiau wystrys / bagiau cregyn glas (gan gynnwys caeadau plastig)
Hambyrddau wystrys (o ddiwylliannau wystrys)
Gorchuddion o ddiwylliant cregyn glas (Tahitiaid)
Arall (nodwch)

2 Rwber

tali Cyfanswm

Dillad / esgidiau / tyweli
Sachlieiniau
Dodrefn
Esgidiau (lledr)
Arall (nodwch)

4 Papur / Cardfwrdd

tali Cyfanswm,

Bagiau
Cardfwrdd
Cartonau (*purepak* e.e. llefrith)
Cartonau (tetrapak e.e. sudd)
Pacedi sigarêts
Stympiau sigarêts
Cwpanau
Papurau newydd / cylchgronau
Arall (nodwch)

5 Pren wedi'i beirionu

tali Cyfanswm

Cyrc
Ffyn lollipop / ffyr sglodion
Cewyll a thopiau crancod / cimwch
Cratiau
Bocsys pysgod
Brwsys paent
Paledi
Arall 0-50cm (nodwch)
Disgrifiad:
Arall 50cm + (nodwch)

6 Metel tali Cyfanswm

Aeosol / caniau chwistrellu
Barbeciws (tafladwy)
Caniau (diod)
Caniau (bwyd)
Capiau / caeadau
Pwysau pysgota / bachau / llithwyr
Papur ffoil
Sgrap
Gwifren / rhwyll / gwifren bigog
Teclynnau
Cewyll a thopiau cimwch / crancod
Drymiau olew
Tuniau paent
Arall 0-50cm (nodwch)
Disgrifiad:
Arall 50cm + (arall)

7 Gwydr tali Cyfanswm

Poteli
Bylbiau / tiwbiau golau
Arall (nodwch)

8 Crochenwaith / Seramig tali Cyfanswm

Defnydd adeiladu (e.e. teiliau)
Cewyll octopws
Arll (nodwch)

9 Glanweithiol tali Cyfanswm

Ffyn 'cotton buds'
Tamponau a dodwyr (*applicators*)
Padiau / padiau bach / deunydd pecynnu
Weipiau gwlyb
Condomau
Freshener toiled
Arall (nodwch)

10 Meddygol tali Cyfanswm

Cynhwyswyr / tybiau (gan gynnwys pacedi
tabledi)
Chwistrelli a nodwyddau
Arall (nodwch)

11 Ysgarthion (peidiwch â chyffwrdd) tali Cyfanswm

Baw cŵn mewn bag

12 Llygrwyr tali Cyfanswm

Darnau paraffin / cŵyr: 0-1cm
Darnau paraffin / cŵyr: 1-10cm
Darnau paraffin / cŵyr: 10cm +
Arall (nodwch)

Y Gymdeithas Cadwraeth Forol. Overross
House, Ross Park, Ross-on-Wye, Here-
fordshire HR9 7QQ T 01989 567 807 E
beachwatch@mcsuk.org W
www.mcsuk.org/beachwatch


Rhif Elusen Gofrestredig (Lloegr a Chym-
ru): 1004005 Rhif Elusen Gofrestredig (Yr
Alban): SC037480 Rhif Cwmni Cyfyngedig
gyda Gwarant : 2550966 Cofrestredig yn
Lloegr Rhif TAW: 489 1505 17

© Y Gymdeithas Cadwraeth Forol (MCS)
2015. Cedwir Pob Hawl. Gallai'r dudalen
hon gael ei ffotogopïo neu ail-greu ar
gyfer defnydd i'r prosiect *Beachwatch*.
Am bob defnydd arall gofynnwch am
ganiatâd gan MCS

Twlyn 3:

Tablau dadansoddi data *Beachwatch*

- Crynodeb o'r 5 arolwg a waned gan Brosiect Ecosystemau Morol Llŷn rhwng 2016-2018
- Holl gofnodion data *Beachwatch* o'r 5 arolwg a waned gan Brosiect Ecosystemau Morol Llŷn rhwng 2016-2018




Beachwatch Survey Information		Total
Survey Area	Length of beach surveyed (m)	50m
	Average width of beach surveyed (m)	25m
	How many volunteers doing the survey	18
	How many bag's full from survey area	14
	Weight of rubbish collected from survey area (kg)	28kg
Extra Area	Extra area cleaned (m)	500m
	How many volunteers cleaning extra area	64
	How many bag's full from extra areas	89
	Weight of rubbish collected from extra area (kg)	158 kg
Types of Litter Collected	Plastic/Polystyrene	4440
	Rubber	3
	Cloth	2
	Paper/Cardboard	1
	Wood	0
	Metal	12
	Glass	8
	Pottery/Ceramics	0
	Sanitary	12
	Medical	0
	Faeces	0
	Pollutants	0

Combined Beachwatch survey information from all 5 surveys conducted by the Llŷn Marine Ecosystems Project between 2016-2018

	Date of Survey					Total
	23/04/2017	21/05/2017	24/06/2017	13/08/2017	22/10/2017	
Survey Area	50m 25m 4 4 10kg	50m 25m 4 3 5kg	50m 25m 2 1 5kg	50m 25m 4 4 4kg	50m 25m 4 2 4kg	50m 25m 18 14 28kg
Extra Area	500m 15 20 40kg	500m 15 30 46kg	500m 4 4 4kg	500m 15 20 40kg	500m 15 15 28kg	500m 64 89 158 kg
Types of Litter	Plastic/Polystyrene	1500	613	147	1310	4440
	Rubber	0	0	0	0	3
	Cloth	0	0	0	0	2
	Paper/Cardboard	0	0	0	3	1
	Wood	0	0	0	0	0
	Metal	1	0	4	3	12
	Glass	0	0	0	5	8
	Pottery/Ceramics	0	0	0	0	0
	Sanitary	0	0	0	12	12
	Medical	0	0	0	0	0
	Faeces	0	0	0	0	0
	Pollutants	0	0	0	0	0
	Winds	Onshore/Light	Onshore/Strong	Onshore/Light	Onshore/Light	
	Seas	Calm	Moderate	Moderate	Rough	
	Stranded, entangled or dead animals	N/A	N/A	N/A	2 dead seal pups	
Additional Information	Circumstances that influenced the survey	N/A	N/A	N/A	Storms Ophelia and Brian had occurred in the previous fortnight	

Twlyn 4: Dyluniadau dwyieithog (Cymraeg & Saesneg)
#2minutebeachclean



CARWCH Y TRAETH!

PEIDIWCH A GADAEI I SBWRIEL EI DDIFETHA

GWNEWCH WAHANIAETH GYDA

#2 MINUTE BEACH CLEAN

CYMERWCH FAG,
CODWCH Y SBWRIEL



SNAPIWCH A THAGIWCH



RHANNWCH



AILGYLCHWCH BE
ALLWCH CHI



RHOWCH O YN Y BIN



YDOL PARTNWRIAETH A

PROSIECT ECOSYSTEMAU MOROL LLŷN

DYLAN'S

LOVE THE BEACH!
DON'T LET LITTER SPOIL IT

MAKE A DIFFERENCE WITH A
**#2MINUTE
BEACH CLEAN**

TAKE A BAG
PICK UP LITTER



SNAP IT AND TAG IT



SHARE IT



RECYCLE WHAT YOU CAN



BIN IT



IN PARTNERSHIP WITH

LLŷN MARINE ECOSYSTEMS PROJECT

DYLAN'S



DEFNYDDIWCH
FI I GODI
SBWRIEL

USE ME
TO PICK UP
LITTER



#2MINUTE
**BEACH
CLEAN**



BEACHCLEAN.NET



DEFNYDDIAD GŦN

SUPPORTED BY

surfdome
#ENJOYTHE RIDE



DEFNYDDIWCH FI I GŏDI SBWRTEL RHOWCH O YN Y BAG SNAPITWCH A THAGITWCH #2MINUTEBEACHCLEAN AR INSTAGRAM NEU TWITTER (GWELWCH EICH LLUNTAU AR BEACHCLEAN.NET) RHOWCH SBWRTEL YN Y BIN
USE ME TO PICK UP LITTER BAG IT UP SNAP IT AND TAG IT #2MINUTEBEACHCLEAN ON INSTAGRAM OR TWITTER (SEE YOUR PICS AT BEACHCLEAN.NET) DROP LITTER IN THE BIN

Twlyn 5: Enghreifftiau o bacedi bioddiraddadwy



Mae **Vegware** yn wneuthurwr ac yn frand gweledigaethol, yn gwmni sy'n gweithredu'n fyd-eang, ac yn cynhyrchu dim ond pcedi y gellir eu compostio.

<https://www.vegware.com/>

Mae **V A Whitley** yn cynnig ystod o gyllyll a ffyrcoed bedw: cryf ac yn 'wyrdd', yn berffaith i'w defnyddio gyda phrydau ysgafn, bwffes a barbeciw.

<https://www.vawhitley.co.uk/ecommerce/search/KF17.aspx>

Mae **Plastico** wedi ymrwymo i amddiffyn yr amgylchedd ac felly yn cynnig dewis eang o gynnyrch sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. Ma'r dewis yn amrywio gynhyrchion pren a bambŵ masnach deg, cyllyll a ffyrco, gwellt a chwpanau sy'n pydru. Mae agweddau gweledol ac ymarferol y cynnyrch yn parhau'n gyson.


<http://www.plastico.co.uk/catering/biodegradable.html>

Bellach mae **Harlech Food Servaces Limited** yn cyflenwi gwellt papur. Cwmni manwerthu bwyd ydyw wedi'i leoli ym Mhen Llŷn.

<http://www.harlech.co.uk/1/en-GB/Home-page>

Twlyn 6: Logo ymgyrch I'r Gwellt â'r Gwelltyn





I'R GWELLT A'R GWELLYN
THE LAST STRAW